| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **ENW'R PWYLLGOR:** | **PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD** |
| **DYDDIAD Y CYFARFOD:** | **14 RHAGFYR 2016** |
| **TEITL:** | **GWEDDARLLEDU** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **ADRODD AC ARGYMHELLION AR GYFER 2017/18** |
| **AWDUR:** | **PENNAETH GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD** |

## 1.0 Cefndir a chyd-destun

1.1 Mae'r Pwyllgor Gwasanaeth Democrataidd wedi gofyn am adroddiad ar yr opsiynau sydd ar gael mewn perthynas â gweddarlledu, gan gynnwys ei ymestyn i'r Pwyllgorau Sgriwtini.

1.2 Ers Mehefin 2014, mae'r Cyngor wedi bod yn arbrofi gyda gweddarlledu cyfarfodydd y Cyngor, y Pwyllgor Gwaith a'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion ac fe gyflwynwyd adroddiadau cynnydd i'r Pwyllgor hwn. Mae trefniadau cyfredol y Cyngor ar gyfer gweddarlledu cyfarfodydd yn unol â'r hyn sy'n cael ei wneud mewn nifer o Gynghorau yng Nghymru ac mae rhai awdurdodau wedi ymestyn gweddarlledu i gynnwys Pwyllgorau Sgriwtini yn arbennig felly er mwyn cynnwys eitemau sydd o ddiddordeb penodol i'r cyhoedd.

## 2.0 Gofynion yn y Dyfodol

2.1 Mae angen cadw'r cyd-destun cenedlaethol mewn cof wrth gynllunio ffordd ymlaen. Mae'n debygol y bydd Llywodraeth Cymru yn cyfeirio at weddarlledu yn y Mesur Llywodraeth Leol nesaf ac unrhyw ofynion mandadol yn y dyfodol. Yn y Papur Gwyn, Ad-drefnu Llywodraeth Leol, Grym i Bobl Leol (Chwefror 2015), cyfeiriwyd at "y bwriad ar y pryd i'w gwneud yn orfodol bod holl gyfarfodydd y Cyngor llawn a'r Pwyllgor gwaith yn cael eu darlledu ar-lein, tra, ar yr un pryd, yn annog darlledu Pwyllgorau".

## 3.0 Ariannu

3.1 Bydd yr Aelodau'n cofio i bob Cyngor dderbyn grant o £40k gan Lywodraeth Cymru tuag at gostau sefydlu cynlluniau peilot ar gyfer gweddarlledu. Y sefyllfa gyllidol ar hyn o bryd yw bod darpariaeth yn y gyllideb i gwrdd â chostau 2016/17 yn unig – mae'r costau blynyddol oddeutu £10,000 ac nid oes unrhyw ddarpariaeth wedi ei chynnwys yn y setliad drafft.

3.2 Argymhellir bod y Pwyllgor yn awdurdodi'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd, mewn ymgynghoriad gyda Chadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, i gyflwyno sylwadau i Lywodraeth Cymru yn gofyn iddynt barhau i ddarparu cymorth grant i gwrdd â chostau gweddarlledu ac unrhyw ymrwymiadau a fydd efallai'n cael eu nodi mewn unrhyw Fesur Llywodraeth Leol yn y dyfodol oherwydd ystyrir bod hyn yn gost ychwanegol i lywodraeth leol ar adeg o doriadau ariannol.

3.3 Oherwydd yr angen am eglurder ynghylch gofynion yn y dyfodol a chyllid o du Llywodraeth ganolog, mae'r UDA yn argymell y dylai'r trefniadau cyfredol barhau am 2017/18. Efallai y bydd y Pwyllgor hwn yn dymuno gwerthuso'r cynllun peilot cyfredol ar ôl cyfnod o dair blynedd, h.y. yn 2017/18 unwaith y ceir eglurder gan Lywodraeth Cymru.

3.4 Yn y cyfamser, argymhellir y bydd angen neilltuo darpariaeth yn y gyllideb ar gyfer 2017/18 er mwyn cwrdd â'r costau cyfredol.

## 4.0 Argymhellion

1) Parhau gyda'r cynllun peilot i weddarlledu cyfarfodydd y Cyngor, y Pwyllgor Gwaith a'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion yn 2017/18.

2) Argymell i'r Pwyllgor Gwaith fod swm o £10,000 yn cael ei gynnwys yn y gyllideb ar gyfer 2017/18 i gwrdd â'r costau angenrheidiol.

3) Cyflwyno sylwadau i Lywodraeth Cymru yn unol â pharagraff 3.2 uchod mewn perthynas â sicrhau cyllid gan lywodraeth ganolog i gwrdd ag unrhyw gostau a gofynion statudol yn y dyfodol.

**Huw Jones**
**Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd**
**05.12.16**